OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 359 (Cy. 54)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Traphont Taf Fechan, Cefn Coed, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mawrth 2023* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1)(a), (4) a 15(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Traphont Taf Fechan, Cefn Coed, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i’r Fenni.

## Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy’n pwyso mwy na 44 tunnell ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bentan dwyreiniol Traphont Taf Fechan, Cefn Coed, Merthyr Tudful i bentan gorllewinol y Draphont.

## Cymhwyso

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

## Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

**5.** Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, yn unol ag adran 15(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, y bydd y gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn yn cymryd mwy na 18 mis i’w orffen. Caiff y Gorchymyn hwn ei ddirymu pan gaiff y gwaith ei gwblhau.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Mawrth 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru